# Adeilad Cyngor Tref Porthcawl a Hwb Cymunedol

grasshopper

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council

reach — Cymunedau Gwydn / Resilient Communities

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr a REACH yn cyflwyno prosiect i greu astudiaeth ddichonoldeb i ddangos yr angen am adeilad Cyngor Tref newydd a hwb cymunedol ym Mhorthcawl. Gellir defnyddio'r astudiaeth hon ar gyfer cais am arian os daw safle, a chyllid, ar gael i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer adeilad newydd.

Ar ddiwedd mis Medi a dechrau mis Hydref, cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyfer grwpiau cymunedol lleol a'r Cyngor Tref yn gofyn beth hoffent ei weld mewn cartref newydd i'r Cyngor Tref gyda hwb cymunedol. Mae'n debygol y bydd dyraniad cymunedol o fewn Prosiect Adfywio Glannau Porthcawl.

**Mae crynodeb o'r adborth o'r ymgynghoriad isod:**

## Porthcawl Heddiw

Gwnaethom holi ynghylch Porthcawl heddiw, pa weithgareddau, amwynderau a gwasanaethau y mae eu hangen yn y dref ar hyn o bryd. Teimlai pobl fod diffyg darpariaeth yn gyffredinol, ac mewn meysydd penodol, er enghraifft darpariaeth gofal meddygol, cludiant ac addysg. Adroddwyd hefyd am ddiffyg cyfleusterau penodol, megis pyllau nofio, man llogi cyson diogel, cyfleusterau storio ar gyfer eitemau megis sgwteri symudedd, parc sblash/pwll nofio, ac am gampfa merched yn unig.

## Defnyddiau a Defnyddwyr

Gofynnom pwy fyddai'n defnyddio hwb newydd, a beth allai'r gwahanol ddefnyddiau o'r lle fod. Awgrymwyd y byddai'r hwb yn cael ei ddefnyddio gan amrywiaeth eang o grwpiau ar draws Porthcawl, ac y dylai fod yn lle i bawb. Cafwyd awgrymiadau y dylid ei ddefnyddio yn lle i dwristiaid hefyd.

O ran y defnyddiau, cafwyd amrywiaeth eang o awgrymiadau, gan gynnwys defnyddio'r hwb yn gyfleuster ar gyfer gweithdai addysgol, yn darparu gweithgareddau y gall y rhai ag anabledd, yr henoed a phobl iau eu cyrchu yn hawdd. Awgrymwyd hefyd y dylid defnyddio'r hwb i helpu busnesau lleol, ac yn orsaf bleidleisio.

## Mynediad

Wrth ystyried mynediad, edrychom ar: y mynediad mewnol, a lleoliad yr hwb, gan gynnwys ei hygyrchedd o'r dref. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r hwb gynnal safon hygyrchedd ardderchog. Awgrymwyd hefyd y dylai fod gan y cyfleuster gyfleusterau cyhoeddus hygyrch a "man newid", a chyfleusterau storio ar gyfer sgwteri symudedd.

O ran lleoliad, roedd yr ymatebwyr eisiau lleoliad canolog, yn ddelfrydol ger cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol, gyda mannau parcio (gan gynnwys gwefru trydan) wedi'u darparu.

## Dyluniad

Wrth edrych ar ddylunio, rhannwyd hyn yn adborth ar bedair thema: nodweddion; estheteg/awyrgylch; cynaliadwyedd, deunyddiau ac adeiladu; a nodweddion sy'n ofynnol gan Gyngor Tref Porthcawl.

O ran dyluniad yr adeilad, ffafriwyd lle hyblyg, yn cynnwys neuadd fawr wedi'i hamgylchynu gan swyddfeydd llai. Roedd darparu Wi-Fi a storfa hefyd yn ddymunol. Er mwyn hwyluso digwyddiadau, soniwyd am ardaloedd cegin a llawer iawn o le storio. Y tu allan i'r hwb, gofynnodd ymatebwyr am gyfleusterau megis MUGA, iard awyr agored, ardal dan do, mannau gwyrdd, a bod y safle wedi'i oleuo'n dda.

O ran awyrgylch, roedd yr angen am le croesawgar a oedd yn hygyrch i bawb yn ddymunol. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai'r gymuned deimlo ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn yr adeilad. Gan edrych ar gynaliadwyedd, deunyddiau ac adeiladu, awgrymwyd y dylid defnyddio gweithlu lleol, gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy ac arferion eco wrth adeiladu. O ran ynni adnewyddadwy, soniwyd am baneli solar ochr yn ochr â thyrbinau gwynt llai, tawel.

Mae angen Siambr Gyngor ar y Cyngor Tref, yn ogystal â swyddfeydd preifat a chyhoeddus, sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd.

Bydd yr adroddiad dichonoldeb terfynol yn barod yn y flwyddyn newydd. Mae diweddariadau ar gael ar wefan REACH:

bit.ly/CyngorTrefPorthcawl